CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

A GYNHALIWYD AM 10:30 AM AR 10 EBRILL 2026 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS

Yn bresennol: Karen Jones (Cadeirydd); Eifion Evans (Dirprwy Gadeirydd); Ian Bancroft (Comisiynydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC)); Bethan Williams Price (Aelod); Beverly Owen (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Paul Orders (Aelod); Frances O'Brien (yn dirprwyo ar ran Martin Nicholls).

Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol: Shereen Williams; Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Michal Harris-Edwards (Swyddog Cymorth Busnes).

Gwahoddedigion: Sarah Ling (Ymgynghorydd); Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Rhydian Thomas (y Comisiwn Etholiadol); Michael Kay (Llywodraeth Cymru); Mathew Xerri (Llywodraeth Cymru); Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion); William Whiteley (Llywodraeth Cymru; Elan Closs Stephens (y Comisiwn Etholiadol); Rhys George (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol); Arwyn Jones (y Senedd); Richard Harris (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol); Paula Waters (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru); Eleanor Wrighton (Rheolwr Pontio Etholiadol ar gyfer Senedd Cymru)

Ymddiheuriadau: Martin Nicholls (Aelod); Ywain W (y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol); Simon Belcher (Heddlu De Cymru)

Amser Dechrau: 10:31
Amser Gorffen: 11:58

Croesawodd y Cadeirydd y Comisiynydd newydd i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE), gan **nodi** y bydd yn camu i lawr i ganolbwyntio ar ei rôl fel Cadeirydd CDFfC tra bydd y Comisiynydd newydd yn ymgymryd â rôl Cadeirydd y BRhE.

3. Datganiadau buddiannau

3.1. Dim.

4. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

4.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth.

5. Cofnod camau gweithredu

5.1. **Nodwyd** bod yr holl gamau gweithredu cyfredol ac sydd ar ddigwydd wedi'u cau, a bod yr holl gamau gweithredu agored ar gyfer dyddiadau yn y dyfodol.

6. Y Grŵp Cynllunio Etholiadau – diweddariad a materion sy'n codi

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Mawrth 2026.

6.2. **Soniodd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd fod y Grŵp Cynllunio Etholiadau wedi cyfarfod am y tro olaf cyn yr etholiad, lle trafodwyd beth fyddai'n digwydd yn syth ar ôl yr etholiad, gan ganolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer aelodau newydd y Senedd.

6.3. **Soniodd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd y bydd argymhelliad anffurfiol yn cael ei wneud i gynnwys nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros bob plaid wleidyddol ac ymgeisydd wrth gyhoeddi canlyniadau, yn seiliedig ar gynrychiolaethau gan sefydliadau'r cyfryngau. **Nodwyd** y cafwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â hyn, a bod templed ar gyfer sgript wedi cael ei lunio.

6.4. **Soniodd** y Cadeirydd mai Swyddogion Canlyniadau sy'n gyfrifol am benderfynu sut i rannu eu canlyniadau yn lleol, a bod hyn wedi cael ei egluro i'r cyfryngau.

6.5. **Soniodd** y Cadeirydd y gall sgwrs â'r cyfryngau ar ôl yr etholiad helpu gyda'r materion hyn ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

6.6. **Soniodd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd am y trafodaethau a gafwyd ynglŷn â phroblemau wrth drefnu ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol ar y papur pleidleisio. **Nodwyd** bod trafodaethau rhwng CDFfC, y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru wedi arwain at arweiniad manylach gan y Comisiwn Etholiadol ar y mater hwn, a ddylai ddatrys y broblem at ei gilydd.

6.7. **Soniodd** y Comisiwn Etholiadol y cafwyd adborth da ynglŷn â'r arweiniad newydd.

6.8. **Soniodd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd fod cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda Gwirfoddolwyr Democratiaeth. **Nodwyd** y bydd 30 i 40 o arsylwyr, gydag un o leiaf ym mhob etholaeth. **Nodwyd** bod Gwirfoddolwyr Democratiaeth wedi cyfeirio at yr arweiniad newydd gan y Comisiwn Etholiadol sy'n dweud y dylai arsylwyr roi gwybod i swyddogion etholiadol am bryderon yn y fan a'r lle. Byddant yn ceisio cyfarfod gyda'r Comisiwn Etholiadol cyn yr etholiad i drafod sut i weithredu hyn.

6.9. **Soniodd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd fod cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda'r Post Brenhinol i gael sicrwydd ychwanegol ynglŷn â'u gweithrediadau. **Nodwyd** bod y Post Brenhinol wedi rhoi sicrwydd i'r BRhE nad oedd ganddynt unrhyw bryderon o bwys. **Nodwyd** y bydd cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal tan yr etholiad.

7. Diweddariad ar Sicrwydd i'r BRhE

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 2 Ebrill 2026.

7.2. **Soniodd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd fod ail holiadur gwirio sicrwydd wedi cael ei gylchredeg i Swyddogion Canlyniadau a'u timau yn dilyn y cyfarfod diwethaf ar 6 Mawrth. **Nodwyd** nad oedd unrhyw bryderon o bwys wedi'u codi.

7.3. **Nodwyd** bod yr ymatebwyr wedi cadarnhau eu bod wedi dilyn y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd ynglŷn â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP).

7.4. **Nodwyd** bod 13 o'r 16 o etholaethau wedi ymateb.

7.5. **Nodwyd**, yn fras, bod yr ymatebwyr yn anelu at gyhoeddi canlyniadau tua chanol y prynhawn.

7.6. **Nodwyd** bod un blaid wleidyddol wedi'i disgrifio ei hun yn anghyson ar bapurau enwebu trwy ddefnyddio 'Cymru' neu beidio cyn enw cofrestredig y blaid, ac y gallai hyn arwain at wahaniaethau yn nhrefn papurau pleidleisio mewn gwahanol etholaethau. Heblaw am hyn, **nodwyd** bod gan y rhan fwyaf o bleidiau enwau tebyg ar draws etholaethau.

7.7. Trafodwyd beth fyddai'n digwydd petai ailgyfrif yn arwain at oedi. **Nodwyd** nad yw'r system etholiadol yn caniatáu ailgyfrif yn rhannol. Nodwyd bod hyn yn fater i'r Swyddog Canlyniadau unigol benderfynu arno, ac y byddai hefyd yn dibynnu ar y dull cyfrif a ddefnyddiwyd.

8. Diweddariad gan Heddlu De Cymru

8.1. Cyflwynwyd eitem 6 ar lafar.

8.2. **Rhoddodd** y Cadeirydd y diweddariad gan na allai'r cynrychiolydd fynychu'r cyfarfod.

8.3. **Soniodd** y Cadeirydd yr awgrymwyd yn ystod cyfarfod gyda Heddlu De Cymru y byddai'n syniad da i gael mwy o gysondeb ledled Cymru yn y ffordd y caiff etholiadau eu plismona. **Nodwyd** bod hyn wedi cael ei dderbyn yn

ystod y cyfarfod, ac y byddai sicrwydd yn cael ei geisio gan rai prif swyddogion yn yr heddluoedd amrywiol yn ystod y diwrnodau yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

8.4. **GWEITHREDU:** Bydd y Cadeirydd yn cysylltu â Heddlu De Cymru i gael diweddariad ar hyn a bydd yn ei gylchredeg i aelodau'r BRhE.

8.5. **Nodwyd** bod heddlu gweithredol lleol un Swyddog Canlyniadau o leiaf wedi cysylltu â nhw ynglŷn â chynlluniau gweithredol ar gyfer yr etholiad.

9. **Diweddariad gan y Comisiwn Etholiadol**

9.1. Cyflwynwyd eitem 7 ar lafar.

9.2. **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi rhoi arweiniad i'r pleidiau a oedd yn debygol o sefyll ar drefn y papur pleidleisio.

9.3. **Nodwyd** bod llyfryn y Comisiwn Etholiadol yn parhau i gael ei ddanfon, ac y bydd yr ymgyrch yn parhau tan y dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

9.4. **Nodwyd** bod mwy o ymwybyddiaeth yn cael ei chodi o'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru trwy hysbysebion a siarad â'r cyhoedd, hefyd.

9.5. **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r heddlu.

9.6. **Nodwyd** bod Arweinydd Rheoleiddiol y Comisiwn Etholiadol yn Nhîm Cymru wedi bod yn mynychu llawer o sesiynau Swyddog Canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr, a phetai unrhyw un eisiau iddo fynychu sesiwn, gallant gysylltu â'r Comisiwn Etholiadol i drefnu hynny.

9.7. **Nodwyd** y bydd y Comisiwn Etholiadol yn rhoi gwybod i'r BRhE ba ardaloedd y byddant yn eu harsylwi ledled Cymru, yn ôl pob tebyg.

9.8. **Nodwyd** bod pedwar bwletin newydd wedi cael eu postio ar wefan y Comisiwn Etholiadol. **Nodwyd** bod y bwletinau hyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer yr ymgyrch 'Chi piau eich pleidlais', gwahoddiad i gymorthfeydd cyngor ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, y mater a drafodwyd ynglŷn â threfn papurau pleidleisio, ac arweiniad ar faneri mewn gorsafoedd pleidleisio.

9.9. **Nodwyd** bod y Comisiwn Etholiadol wrth law i ddelio ag ymholiadau a'i fod yn cynnal gwasanaeth galwadau y tu allan i oriau.

10. Cofrestr risgiau etholiadau Senedd 2026

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig mis Mawrth 2026.

10.2. **Soniodd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd fod rhai risgiau wedi cael eu cau, a bod y gweddill ar agor er mwyn eu monitro. **Nodwyd** bod yr holl gamau gweithredu a amlygwyd ar y gofrestr wedi cael eu cyflawni.

10.3. **Nododd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd fod mater trefn papurau pleidleisio wedi cael ei ychwanegu yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp Cynllunio. **Nododd** y Pennaeth Iechyd Democrataidd y gellid cau'r risg hon o ganlyniad i arweiniad y Comisiwn Etholiadol.

10.4. **Nodwyd** bod risgiau gwahanol yn codi wrth symud trwy amserlen yr etholiad. Y risgiau mawr nesaf yw pleidleisiau drwy'r post ac agor, a ddilynir gan faterion dilysu a chyfrif.

10.5. **GWEITHREDU:** Bydd y Pennaeth Iechyd Democrataidd yn diweddaru'r risg ynglŷn â threfn papurau pleidleisio fel y gellir ei chau.

10.6. **Nodwyd** bod pryderon ynglŷn â'r maes seiber ledled Cymru ac unrhyw ymosodiadau posibl a allai ddigwydd.

10.7. **GWEITHREDU:** Bydd y Pennaeth Iechyd Democrataidd yn ymchwilio i'r mater hwn, ac efallai bydd yn cysylltu â'r timau diogelwch yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

10.8. **Nodwyd** y bu ymosodiad atal gwasanaeth ar ambell gyngor yng Nghymru, er nad yw'n ymddangos fel petai wedi effeithio ar enwebiadau.

10.9. **GWEITHREDU:** Bydd y Pennaeth Iechyd Democrataidd yn rhannu manylion cyswllt Ywain W o'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

10.10. Trafodwyd defnyddio'r teitl Swyddog Canlyniadau mewn deunydd etholiad, sef yn benodol p'un ai defnyddio'r term Swyddog Canlyniadau ar gyfer rolau amrywiol, neu ddefnyddio Swyddog Canlyniadau Etholaethol hefyd, lle bo'n briodol. **Nododd** un Swyddog Canlyniadau ei fod yn defnyddio Swyddog Canlyniadau mewn deunydd cyfathrebu ffurfiol oherwydd dyna beth mae'r cyhoedd yn ei ddeall. **Nodwyd** bod Swyddog Canlyniadau arall yn defnyddio'r ddau gan fod ei ddeunydd etholiad yn rhychwantu gwahanol etholaethau a bod angen egluro pwy sy'n gyfrifol am beth.

11. Diweddariad ar Gyfathrebu

11.1. Cyflwynwyd eitem 9 ar lafar.

11.2. **Nodwyd** y bydd y grŵp Cyfathrebu yn cyfarfod unwaith yn rhagor cyn yr etholiad.

11.3. **Nodwyd** bod yr holl bartneriaid yn symud ymlaen â'u cynlluniau cyfathrebu.

11.4. **Nodwyd** y bydd y grŵp yn dechrau edrych ar wersi a ddysgwyd yn y cyfarfod nesaf.

11.5. **Nodwyd** bod angen gwneud cynlluniau ar gyfer yr etholiadau lleol yn 2027.

12. Diweddariad ar Bontio i Senedd Cymru

12.1. Cyflwynwyd eitem 10 ar lafar.

12.2. **Soniodd** y Rheolwr Pontio Etholiadol ar gyfer Senedd Cymru y bydd y digwyddiadau croeso ar gyfer ASau newydd yn dechrau ar y dydd Gwener ac yn parhau drwy gydol y penwythnos fel bod yr holl aelodau'n tyngu eu llw erbyn diwedd dydd Llun oherwydd y bwriedir cynnal cyfarfod llawn ddydd Mawrth.

12.3. **Nodwyd** bod rhaid i'r ffurflen swyddogol gan Swyddog Canlyniadau gael ei derbyn cyn y gellir prosesu llw ar gyfer aelod.

12.4. **Nodwyd** y dylai pob Swyddog Canlyniadau fod wedi derbyn llythyr gan y Prif Weithredwr, sef Manon Antoniazzi.

12.5. **Nodwyd** bod angen i'r ffurflen 22 newydd gael ei llenwi a'i hanfon at y cyfeiriad e-bost ar gyfer ffurflenni etholiad, ynghyd ag anfon copi wrth gefn drwy'r post, cyn gynted â phosibl.

12.6. **Nodwyd** bod ffurflen ystadegau wedi cael ei hanfon hefyd, ac y byddai'r Rheolwr Pontio Etholiadol yn ddiolchgar pe gellid llenwi honno hefyd a'i dychwelyd gyda'r ffurflen.

12.7. **Nodwyd** y bydd ail lythyr yn cael ei anfon at Swyddogion Canlyniadau ar ddiwedd mis Ebrill i'w hatgoffa o'r broses gyffredinol a'r chwe phecyn fesul etholaeth ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus. **Gofynnodd** y Rheolwr Pontio Etholiadol i Swyddogion Canlyniadau ddosbarthu'r pecynnau i ymgeiswyr llwyddiannus.

12.8. **Nodwyd** bod rhaid i aelodau sirol a bwrdeistref sirol presennol sy'n ymgeisio yn yr etholiad ymddiswyddo os ydynt wedi cael eu hethol yn llwyddiannus, a bod rhaid i hyn gael ei wneud cyn iddynt lofnodi eu llw teyrngarwch. Oherwydd y cyfnod byr ar gyfer tyngu llw, **nodwyd** y gallai gwiriad ychwanegol fod yn ddefnyddiol er mwyn osgoi anghymhwyso.

12.9. **Soniodd** y Rheolwr Pontio Etholiadol fod gwiriadau wedi'u sefydlu, gyda chwestiynau am amgylchiadau anghymhwyso ar y llinell archebu ac yn syth cyn iddynt dyngu'r llw.

12.10. **Nodwyd** bod rhai Swyddogion Canlyniadau wedi paratoi nodyn briffio a llythyr templed ymddiswyddo i helpu gyda'r broses.

12.11. **Nodwyd** nad yw ymddiswyddo o'r swyddi hyn yn opsiwn i ymgeiswyr llwyddiannus sydd i dyngu'r llw.

13. Diweddariad ar brosiect y Platfform

13.1. Cyflwynwyd eitem 11 ar lafar.

13.2. **Nodwyd** bod y WEIP wedi bod yn fyw am 6 wythnos.

13.3. **Nodwyd** bod yr holl ofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni.

13.4. **Nodwyd** bod y wefan wedi mynd yn fyw heb yr ymarferoldeb canlyniadau cyfrif (fel y cynlluniwyd). **Nodwyd** y bydd y gofyniad cyfreithiol yn cael ei fodloni sut bynnag gan y bydd PDF o'r canlyniadau'n cael ei gyhoeddi ar y safle.

13.5. O ran canlyniadau cyfrif, **nodwyd** bod datblygiad yn mynd rhagddo ar ochr gweinyddwyr etholiadol i fewnbynnu canlyniadau, cyflwyno canlyniadau etholaethau ar dudalennau blaen, a darlun cenedlaethol.

13.6. **Nodwyd** bod profion derbynioldeb i'r cwsmer wedi'u trefnu ar gyfer penwythnos y 25ain a'r 26ain, a'r dyddiad targed ar gyfer gweithredu yw dydd Mercher 29 Ebrill.

13.7. **Nodwyd** bod yr 16 Hysbysiad Etholiad wedi cael eu cyhoeddi ar y safle ar yr un diwrnod y'u cyhoeddwyd gan y Swyddogion Canlyniadau unigol.

13.8. **Nodwyd** bod 10 ffeil data ymgeiswyr wedi cael eu derbyn, a bod tair wedi cael eu cyhoeddi ar y tu blaen ar ôl ychydig o drafferthion gweithredol, a ddeilliodd o weithrediad y wefan a'r tri chyflenwr System Rheoli Etholiadol (EMS).

13.9. **Nodwyd** bod y BRhE wrthi ar hyn o bryd yn cyhoeddi Datganiadau Pleidiau ac Unigolion a Enwebwyd, Hysbysiadau Pôl ac, ar gyfer rhai Swyddogion Canlyniadau, eu Hysbysiadau Lleoliad Gorsafoedd Pleidleisio ar y safle.

13.10. **Nodwyd** yr ymdriniwyd â'r holl newidiadau mewn modd amserol.

13.11. **Nodwyd** mai'r elfen nesaf fydd cyhoeddi anerchiadau etholiad gan bleidiau ac ymgeiswyr. **Nodwyd** mai dim ond dau anerchiad etholiad a gyflwynwyd hyd yma.

13.12. **Nodwyd** bod y BRhE wrthi'n cysylltu â phleidiau ac ymgeiswyr annibynnol i'w cynorthwyo â'r broses.

13.13. **Nodwyd** mai'r dyddiad cau cyntaf ar gyfer cyflwyno anerchiadau etholiad yw dydd Mawrth nesaf, a'r dyddiad cyhoeddi yw'r dydd Iau canlynol. Yr ail a'r trydydd dyddiad cau fydd y pythefnos yn syth ar ôl y cyntaf, a bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ar ddydd Mawrth a'r dyddiad cyhoeddi ar ddydd Iau unwaith eto.

13.14. **Nodwyd** bod un Swyddog Canlyniadau wedi dweud y gall fod yn anodd cael gafael ar rai pleidiau ac ymgeiswyr, a'u bod nhw'n delio â phencadlys y blaid weithiau yn hytrach na swyddogion enwebu neu'r asiant etholiad.

13.15. Rhannwyd cyflwyniad PowerPoint a oedd yn dangos ystadegau a lluniau o'r ymgyrch cyfryngau. Wrth ddadansoddi'r ystadegau ar gyfer y wefan, **nodwyd** bod traffig ar gyfer y safle wedi cyrraedd brig yn sgil anfon cardiau pleidleisio.

13.16. **GWEITHREDU:** Bydd Sarah yn cynnwys manylion ymwelwyr â'r safleoedd Cymraeg a Saesneg.

13.17. **Nodwyd** bod yr hysbysebion bws wedi cyflawni mwy na'r disgwyl.

13.18. **Nodwyd** y bydd cyfnod byr i baratoi'r safle ar gyfer yr etholiadau lleol y flwyddyn nesaf, yn enwedig oherwydd y bydd llawer mwy o ddata i'w brosesu, felly ni ellir dibynnu ar atebion llaw.

13.19. **Nodwyd** bod y Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID) ar gyfer y cam datblygu nesaf yn cael ei llunio.

13.20. **Nodwyd** y bydd angen casglu data ar gyfer adroddiad Llywodraeth Cymru i gadarnhau bod y safle'n bodloni'r gofynion deddfwriaethol.

14. Diweddariad a thrafodaeth ynglŷn â chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Ebrill 2026 gan Lywodraeth Cymru.

14.2. **Nodwyd** bod y gweithdy ar gyfer cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig wedi cael ei ailgynnull, a bod yr aelodaeth wedi cael ei hymestyn i bob awdurdod, y Comisiwn Etholiadol, a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol.

14.3. **Nodwyd** bod y gofrestr agored wedi cael ei diddymu, a bod darpariaethau'r Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig wedi cychwyn. **Nodwyd** nad oes modd cyflawni'r broses eto hyd nes y bydd set fanwl o reoliadau'n cael ei chreu ar gyfer cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig. **Nodwyd** bod fersiwn ddrafft yn cael ei pharatoi.

14.4. **Nodwyd** bod y newidiadau hyn yn deillio o'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot.

14.5. **Nodwyd** bod rhai o'r newidiadau arfaethedig, fel lleihau'r amser hysbysu o 60 niwrnod i 28 niwrnod, yn newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, ac felly y gallai'r broses ar gyfer craffu gan y Senedd fod yn hirach.

14.6. **Nodwyd** bod hyn yn dibynnu ar gefnogaeth barhaus y weinyddiaeth ar ôl yr etholiad i gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig.

14.7. **Nodwyd** bod gwybodaeth am gyllid wedi cael ei rhannu.

14.8. **Nodwyd** bod y gweinidogion presennol eisiau i system cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig gael ei gweithredu mewn pryd ar gyfer yr etholiadau lleol ym mis Mai 2027.

14.9. **Nodwyd** bod gweinyddwyr etholiadol eisiau i'r cynlluniau a'r paratoadau gynnwys y bobl a fydd yn gwneud y gwaith yn ymarferol ac ystyried pa effaith y bydd yn ei chael ar y llwyth gwaith a llwybrau ar gyfer cymorth ariannol.

14.10. **Nodwyd** y bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Mehefin.

15. **Llywodraeth Cymru**

15.1. Cyflwynwyd eitem 13 ar lafar.

15.2. **Nodwyd** bod Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) wedi cael ei basio ar 17 Mai.

15.3. **Nodwyd** bod y Bil yn y cyfnod hysbysu ar hyn o bryd, a bod y Twrnai Cyffredinol a'r Cwnsler Cyffredinol wedi dweud na fyddant yn ei atgyfeirio.

15.4. **Nodwyd** bod hyn yn golygu bod y Bil yn aros am Gydsyniad Brenhinol cyn y gall ddod yn ddeddf.

15.5. **Nodwyd** mai'r rhan fwyaf perthnasol o'r Bil i'r BRhE fyddai'r adran ar adalw. **Nodwyd** nad yw hyn yn cychwyn yn awtomatig, a bod y cyfnod cyn yr etholiad yn cael ei ddefnyddio i gynllunio o amgylch graddfeydd amser posibl.

15.6. **Nodwyd** bod yr adran adalw'n cynnwys ymestyn cylch gwaith y BRhE i gynnwys polau adalw, a'i bod yn orchymyn cynnal etholiadau i bob pwrpas i gynnal polau adalw yng Nghymru.

15.7. **Nodwyd** y bydd trafodaeth ar ôl yr etholiad yn y Senedd i benderfynu ar y manylion.

15.8. **Nodwyd** bod Rhan Tri y Bil, sy'n ymwneud â dichell fwriadol, yn cynnwys dyletswydd ar weinidogion i gyflwyno darpariaethau, yn hynny o beth.

15.9. **GWEITHREDU:** Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod y BRhE ar ôl i Gydsyniad Brenhinol gael ei roi a'r gwaith cynllunio ychwanegol gael ei gwblhau i roi diweddariad.

16. Llywodraeth y Deyrnas Unedig

16.1. Cyflwynwyd eitem 14 ar lafar.

16.2. **Nodwyd** bod y Bil Cynrychiolaeth y Bobl yn parhau.

16.3. **Nodwyd** mai'r cwestiwn amserol olaf cyn i'r Senedd ddiddymu oedd trafod adolygiad Rycroft o gyllido ac ymyrraeth ariannol o dramor mewn etholiadau.

16.4. **Nodwyd** bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol wedi cael ei gyhoeddi, sy'n amlinellu ffurf y bil ar gyfer Cymru. **Nodwyd** na ofynnwyd i'r Senedd gydsynio'n ffurfiol oherwydd amseriad diddymu'r Senedd, felly mae argymhellion hefyd ar gyfer pryd y gall y 7fed Senedd gydsynio.

16.5. **Nodwyd** bod y BRhE yn cadw llygad ar sut mae'r Bil yn datblygu ac, ar ôl yr etholiad, efallai y gwahoddir Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi cyflwyniad i'r BRhE ar yr amserlen ddisgwyliedig.

17. Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

17.1. Cyflwynwyd eitem 15 ar lafar.

17.2. **Nodwyd** bod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn cefnogi'r broses gyflawni ac yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol ar gyfer gweinyddwyr.

17.3. **Nodwyd** bod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol wedi cael ambell ymholiad, ond nid cymaint ag y gellid eu disgwyl tua adeg etholiad.

18. Unrhyw Fater Arall

18.1. **Soniodd** y Cadeirydd fod yr Amserlen Cyfarfodydd ar gyfer 2026-27 wedi cael ei chynnig.

18.2. **Diolchodd** yr aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i'r Cadeirydd am ei gwaith i'r BRhE oherwydd dyma oedd ei chyfarfod olaf fel

Cadeirydd y BRhE.

19. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 12 Mehefin